Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Gronfa Urddas Mislif Canllawiau Addysg Bellach

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

Diben y cyllid ..... 2
Costau/gweithgarwch cymwys ..... 2
Costau anghymwys ..... 5
Darparwyr cynhyrchion eco-gyfeillgar ..... 5
Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ..... 6
Taliadau i Sefydliadau ..... 7
Gofynion Monitro ..... 7
Manylion Cyswllt ..... 7

## Diben y cyllid

1. Mae sicrhau mynediad at gynhyrchion mislif, sy'n rhad ac am ddim ac yn hygyrch yn y ffordd fwyaf ymarferol ac urddasol posibl, yn ganolog i ddiben y cyllid grant hwn.

2. Daw'r Canllawiau hyn i rym o 1 Awst 2025 ac maent yn disodli canllawiau presennol ynghylch Urddas Mislif. Maent yn nodi diben cyllid Urddas Mislif, y trefniadau gweinyddol, ac yn gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau hynny. Rhaid i sefydliadau addysg bellach (SABau) gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon.

3. Gall Medr, ar unrhyw adeg, ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y Canllawiau hyn, eu dirymu neu ychwanegu atynt.

4. Dylai cynhyrchion mislif fod ar gael i'r canlynol:
    - Yr holl ddysgwyr yn y SAB; ac
    - Unigolion yng nghymuned y coleg y mae arnynt angen mynediad at gynhyrchion mislif, gan flaenoriaethu'r rhai o aelwydydd incwm isel.

5. Felly byddem yn disgwyl i'r mwyafrif helaeth o gyfanswm y cyllid gael ei wario ar brynu cynhyrchion mislif.

## Costau/gweithgarwch cymwys

6. Mae Medr yn ymrwymedig i ymdrin â'r heriau a achosir gan bob math o lygredd plastig. Y gofyniad lleiaf ar gyfer gwario'r grant ar gynhyrchion mislif eco-gyfeillgar (h.y. yw rhai amldro a/neu ddi-blastig) yw 80%. Mae arnom eisiau cefnogi newid i ffwrdd o opsiynau untro plastig a galluogi dewis ehangach o opsiynau di-blastig, amldro gan sicrhau hygyrchedd ac effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Ceir enghreifftiau isod o ddarparwyr cynhyrchion Eco-gyfeillgar.

7.

| Gweithgaredd | Rhagor o wybodaeth (os yw’n ofynnol) |
|---|---|
| Cynhyrchion mislif (gan gynnwys nicers mislif) | |
| Bagiau gwaredu cynhyrchion mislif | |
| Pyrsiau storio/bagiau gwlyb i’w defnyddio gyda chynhyrchion amldro | |
| Dillad | I’w darparu lle nad oes gan ddysgwyr ddillad glân ar gael i newid iddynt a bod gwaedu mislifol wedi staenio neu faeddu eu dillad – yn gyfyngedig i ddillad isaf rheolaidd, trowseri, sgertiau a theits |
| Powdr/hylif golchi dillad – | I lanhau cynhyrchion mislif amldro/dillad lle mae gwaedu mislifol wedi staenio neu faeddu eitemau a bod y dysgwr heb fodd arall i’w golchi – yn gyfyngedig i ddefnydd ar y safle mewn SABau |
| Peiriannau cyflenwi cynhyrchion mislif | |
| Cadachau gwlyb | I’w cynnig dim ond os yw rhywun oddi cartref a bod eu hangen arnynt at ddibenion hylendid |
| Gall costau sy’n gysylltiedig â dosbarthu cynhyrchion i dderbynyddion gael eu hariannu gan y Grant. | Er enghraifft, postio i gyfeiriadau cartref. |
| Hyfforddiant neu addysg mewn SABau, i weithwyr proffesiynol, dysgwyr ac aelodau o gymunedau colegau. | Gellir defnyddio hyd at 20% o gyfanswm y grant a ddyrennir i SABau at ddibenion hyfforddiant neu addysg. Rhaid i unrhyw hyfforddiant ac addysg ddarparu gwybodaeth a’r cyfle i roi cynnig ar gynhyrchion mislif amldro (mynd â hwy adref) a dylent gyd-fynd ag arferion hyfforddi presennol.<br><br>Cynghorir SABau i ystyried adnoddau sydd eisoes ar gael ar Hwb a Bloody Brilliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| Cyfathrebu a Marchnata | Lle nad ydynt yn cael eu cynhyrchu'n ganolog, megis hysbysebu gwasanaethau lleol e.e. tanysgrifiadau. Dylid osgoi'r angen am ddogfennau wedi'u hargraffu lle y bo'n bosibl.<br><br>Mae angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â Chyfathrebu a Marchnata gael eu cytuno ymlaen llaw gyda Medr. |
| Gellir gwario 12.5% o gyfanswm y grant, neu hyd at £40,000, pa un bynnag yw'r isaf, ar gostau gweinyddu e.e. amser staff. | Er enghraifft, amser staff. |

## Costau anghymwys

- Costau storio i ddal cynhyrchion mislif
- Poteli dŵr poeth, blancedi a gofal y croen
- Cynhyrchion ymolchi cyffredinol gan gynnwys gel cawod, sebon, diaroglyddion a chynhyrchion deintyddol
- Eitemau bwyd a diod
- Cadachau hylendid nad ydynt yn eco-gyfeillgar
- Biniau gwaredu cynhyrchion mislif

## Darparwyr cynhyrchion eco-gyfeillgar

8. Nid yw Medr yn cymeradwyo unrhyw gynhyrchion na chwmnïau penodol ac ni fyddai'n argymell bod SABau yn gwneud hynny ychwaith. Fodd bynnag, i gynorthwyo SABau, rydym wedi darparu rhestr o gwmnïau y gellir cael cynhyrchion mislif eco-gyfeillgar ganddynt.

*Cynhyrchion untro*

- Grace and Green – Tamponau (rhai â dodwr cardbord/heb ddodwr), padiau a phadiau leinin ysgafn
- Here we Flo – Tamponau, padiau a phadiau leinin ysgafn
- Hey Girls – Tamponau (nid eu dodwyr plastig o blanhigion) a phadiau
- Natracare – Tamponau (rhai â dodwr cardbord / heb ddodwr), padiau a phadiau leinin ysgafn
- Organyc – Tamponau (rhai â dodwr cardbord / heb ddodwr), padiau a phadiau leinin ysgafn (nid eu dodwyr plastig o blanhigion)
- TOTM – Tamponau (rhai â dodwr cardbord / heb ddodwr), padiau a phadiau leinin ysgafn

*Padiau amldro*

- Bare Collective
- Cheeky Wipes
- Grace and Green
- Hey Girls
- WUKA

*Tamponau amldro â dodwyr*

- Lil Lets
- Dame

*Nicers mislif (amldro)*

- Cheeky Wipes
- Flux
- Here we Flo
- Modibodi
- Peace With The Wild
- Thinx
- WUKA

*Cwpanau mislifol (amldro)*

- Grace and Green
- Hey Girls
- Intimina
- Kind Organic
- Mooncup
- TOTM

### Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

9. Y corff o fewn Llywodraeth Cymru sy'n contractio gyda'r sector cyhoeddus, Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n rheoli'r broses o gyflawni contractau a fframweithiau Cymru gyfan ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Er mwyn cynorthwyo sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni amcanion Grant Urddas Mislif Llywodraeth Cymru mae'r GCC wedi cynnwys cynhyrchion mislif fel eitemau craidd o fewn ei Gytundeb Fframwaith Deunyddiau Glanhau a Phorthorol - cyfeirnod fframwaith NPS-CFM-0099-19.

10. Bydd y fframwaith hwn yn darparu llwybr cyflym i'r farchnad sy'n cydymffurfio â'r gofynion i sefydliadau'r sector cyhoeddus gael cynhyrchion mislif, naill ai ar sail dyfarniad uniongyrchol neu drwy fini-gystadleuaeth. Ceir rhagor o wybodaeth am y fframwaith ar GwerthwchiGymru neu drwy gysylltu â Thîm Categori'r GCC (NPSConstructionandFM@gov.wales).

11. Adnabu adborth gan awdurdodau lleol fod storio niferoedd mawr o gynhyrchion yn broblem. Mae'r arlwy a ddarperir gan y GCC yn ei gwneud yn bosibl archebu niferoedd bychain o gynhyrchion yn rheolaidd iawn a ddylai helpu i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu gan hefyd leihau i'r eithaf yr angen am le storio ychwanegol. Efallai y bydd SABau yn gallu defnyddio unrhyw ymarfer caffael-ar-y-cyd ffafriol.

## Taliadau i Sefydliadau

12. Bydd cyllid yn cael ei dalu i Sefydliadau mewn un rhandaliad ym mis Awst.

## Gofynion Monitro

13. Rhaid i Sefydliadau gyflwyno adroddiad terfynol a datganiad blynyddol o wariant grant; bydd hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ffurflen ar y cyfan ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

14. Bydd angen cyflwyno adroddiadau i Medr erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd.

15. Bydd templedi'r adroddiadau'n cael eu hanfon gan Medr i'w cwblhau cyn y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno.

16. Gall unrhyw danwariant ar Urddas Mislif gael ei ddefnyddio at y dibenion a amlinellir yng nghanllawiau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Bydd unrhyw danwariant sy'n weddill yn cael ei adhawlio'n llawn gan Medr.

## Manylion Cyswllt

17. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn InvestmentandPerformance@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**